

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**  
**Trawsnewid IFRS**  
**Dadansoddi effaith**

<b>Uchel</b>	Mae'r safon wedi'i phennu fel un effaith uchel oherwydd maint yr addasiad tebygol; cyflwyno anweddolrwydd i'r datganiad Incwm; neu os fydd mabwysiadu'r IFRS â goblygiadau gweithredol arwyddocaol.
<b>Canolig</b>	Mae'r safon wedi'i hasesu fel un effaith canolig os: mae'n debygol y bydd angen addasiad cymedrol, bydd y datganiad incwm yn dangos amrywiad cymedrol; neu os yw'n debygol y bydd goblygiadau gweithredol neu oblygiadau datguddio.
<b>Isel</b>	Mae'r safon wedi'i hasesu fel un effaith isel os fydd mabwysiadu'r IFRS yn cael ychydig o effaith ariannol neu effaith weithredol.

Safon Ryngwladol	GAAP y DU	Gwahaniaeth rhwng GAAP y DU a'r IFRS	Effaith ar y Fantolen	Effaith ar Refeniw	Graddio'r Effaith
IAS 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol	FRS 3, FRS 28	Dan GAAP y DU'r datganiadau ariannol craidd yw'r Cyfrif Incwm a Gwariant, STRGL, Mantolen a Datganiad Llif Arian. Dan GAAP y DU mae adroddiadau rhannol wedi'u cynnwys ar wyneb y Cyfrif Incwm a Gwariant a chyflwynir 2 Fantolen. Nid oes gofyniad cyffelyb i IAS1 dan GAAP y DU. Mae IAS1 yn gofyn bod pob endid sy'n adrodd dan IFRS yn cyflwyno: mantolen, datganiad incwm, datganiad o newid mewn ecwiti (SOCIE) neu ddatganiad o incwm a gwariant cydnabyddedig, datganiad llif arian, a nodiadau sy'n cynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifo arwyddocaol a nodiadau eglurhaol. Cynhwysir gwybodaeth wasanaeth ar wyneb y datganiad incwm wedi'i seilio ar BVACOP. Mae adroddiadau rhannol ychwanegol, wedi'u seilio ar drefniadau rheoli mewnol ac yn cynnwys dadansoddiad goddrychol a chysoniadau wedi'u cynnwys yn y nodiadau. Mae trydedd fantolen yn cael ei chyflwyno (fel ag ar ddechrau'r cyfnod cymharol). Yn y Fantolen, daw "asedau sefydlog" yn "asedau nad ydynt yn gyfredol". Dan y Cod, bydd yn rhaid i'r Awdurdod barhau â chynhyrchu Datganiad o Symudiadau ar Falans y Gronfa Gyffredinol (SMGFB). Bydd angen cymariaethau 2009 2010.	Newidiadau arwyddocaol i ofynion datgelu a nodiadau sy'n mynd gyda nhw. Yr effaith leiaf neu dim effaith ar fesuriadau. Gwahaniaethau cyfredol/nad ydynt yn gyfredol i'w gwneud ar gyfer asedau a rhwymedigaethau a rhaid dangos hyn ar wyneb y fantolen. Dylai asedau a ddisgwylir iddynt fod yn gyflawnedig o fewn blwyddyn neu sy'n cael eu dal ar gyfer eu gwerthu neu'u treulio, gael eu dosbarthu fel asedau dosbarthol neu asedau cyfredol. Bydd angen Mantolen IFRS agoriadol dechrau'r cyfnod cymharol.	Mae IAS 1 yn nodi'r lleiafswm o eitemau llinell y dylid eu cynnwys ar wyneb y fantolen. Bydd angen casglu mwy o wybodaeth nac a wneir yn bresennol, e.e. dadansoddiad goddrychol.	Canolig

IAS 2 Rhestrau Eiddo	SSAP 9	Mae IAS 2 yn caniatáu'r defnydd o FIFO a fformwlâu cost ar gyfartaledd pwysol yn unig, nid LIFO. Mae IAS2 a SSAP9 yn debyg. Dan IAS2, pan fo telerau taliadau gohiriedig ar gyfer prynu rhestrau eiddo, caiff hyn ei ystyried fel trefniad cyllido ac mae'r safon yn gofyn bod y gwahaniaeth rhwng y pris a fyddai wedi'i dalu am delerau credyd "arferol" a'r pris a dalwyd mewn gwirionedd yn cael ei gydnabod fel gwariant llog dros gyfnod y cyllido.	Posibilrwydd o ailddatgan ffigwr y rhestr eiddo ar y fantolen os yw telerau gohirio wedi'u gwneud ar gael i'r Awdurdod.	Effaith posibl ar linell gost ariannol oherwydd symud costau llog i I&E o'r fantolen. Datgelu'r swm sydd wedi'i gydnabod fel cost yn ystod y cyfnod ynghyd ag unrhyw gofnodi o restrau eiddo i'r gwerth cyflawnedig net gydag eglurhad am unrhyw wrthdroadau.	Isel
IAS 7 Datganiad o Lifoedd Arian	FRS 1	Dan IAS 7 mae'r Datganiad Llif Arian yn dosbarthu arian parod i weithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido. Mae llifoedd arian yn berthnasol i symudiadau mewn arian parod ac arian a'r hyn sy'n cyfateb (buddsoddiadau tymor byr hylifol iawn a ellir eu troi'n rhwydd iawn i symiau diffiniedig o arian parod, ac sy'n destun risg di-nod o newidiadau mewn gwerth, wedi'i dybio pan fo aeddfedrwydd y buddsoddiad yn llai na neu'n gyfartal â 90 niwrnod). Dan GAAP y DU, roedd arian a'r hyn sy'n cyfateb yn cael eu cynnwys mewn "rheoli adnoddau hylifol". Mae IAS 7 yn gofyn am gysoni rhwng symudiadau llif arian a symudiadau dyledion net. Mae'r Cod yn cyflwyno'r cysyniad y dylid mesur rhestrau eiddo wedi'u caffael neu wedi'u dosbarthu am ddim cost neu gost nominal ar yr isaf o gost a'r gost adnewyddu gyfredol.	Dim Effaith.	Dim Effaith.	Canolig
IAS 8 Polisiâu Cyfrifo, Newidiadau mewn Amcangyfrifon a Gwallau Cyfrifo	FRS 3, FRS 18	Dan IAS 8 rhaid cywiro pob gwall perthnasol yn ôl-weithredol, tra dan GAAP y DU, roedd angen cywiro gwallau sylfaenol yn unig. Mae esgeulustod neu gamddatganiadau perthnasol yn berthnasol os ydynt yn gallu, yn unigol neu gyda'i gilydd, dylanwadu ar benderfyniadau economaidd mae defnyddwyr yn eu gwneud ar sail datganiadau ariannol. Mae IAS 8 angen datgeliadau manylach ar gyfer newidiadau mewn polisiâu cyfrifo a chywiriadau i gamgymeriadau. Mae IAS 8 yn gofyn am ddatgelu natur a swm newid sydd ag effaith yn y cyfnod presennol neu sydd ag effaith a ddisgwylir mewn cyfnodau yn y dyfodol (ac eithrio pan fo hynny'n anymarferol). Dan GAAP y DU, roedd angen hyn yn y cyfnod cyfredol yn unig.	Bydd yr effaith wrth symud ymlaen yn y lle cyntaf.	Bydd yr effaith wrth symud ymlaen yn y lle cyntaf.	Canolig
IAS 10 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd	FRS 21	Mae IAS10 yn amlinellu pan ddylai endid addasu ei ddatganiadau ariannol ar gyfer digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen a'r datgeliadau gofynnol. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol dan IFRS a GAAP y DU.	Bydd yr effaith wrth symud ymlaen yn y lle cyntaf.	Bydd yr effaith wrth symud ymlaen yn y lle cyntaf.	Isel
IAS 11 Contractau Adeiladu	SSAP 9	Mae hwn yn berthnasol i waith adeiladu mae'r Awdurdod yn ei wneud ar ran eraill yn unig; nid yw'n cynnwys asedau sy'n cael eu hadeiladu i ddibenion yr Awdurdod ei hun. Hefyd, mae'n cynnwys contractau tymor hir.	Ddim yn berthnasol.	Ddim yn berthnasol.	Isel

IAS 12 Trethi Incwm	FRS 16, FRS 19	Mae IAS 12 yn nodi'r cyfrifo ar gyfer trethi cyfredol a threthi a ohiriwyd. Bydd y gwahaniaethau'n effeithio ar y cyfrifon grŵp yn unig.	Dim effaith	Dim effaith	Isel
IAS 14 Adroddiadau Rhannol	SSAP 25	Wedi'i ddisodli gan IFRS 8 ar gyfer cyfnodau cyfrifo sy'n dechrau cyn neu ar ôl 1 Ionawr 2009.	Dim effaith	Dim effaith	Isel
IAS 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar	FRS 15	Mae IAS16 yn cyfalafu gwariant dilynol ar ased gan ddefnyddio'r un meini prawf â'r gwariant cychwynol, hynny yw, pan fo'n debygol bydd y buddion economaidd yn y dyfodol sydd wedi'u cysylltu â'r eitem yn llifo i'r endid a gellir mesur cost yr eitem yn gywir. Ar y llaw arall mae FRS 15 angen cyfalafu gwariant dilynol pan fo'r gwariant yn gwella cyflwr yr ased y tu hwnt i'w safon perfformiad sydd wedi'i asesu o'r blaen yn unig. Mae IAS 16 yn nodi os ceir asedau sefydlog yn gyfnewid am ased nad yw'n ariannol, bydd cost yr ased a geir yn cael ei fesur ar werth teg onid bod y cyfnewid â diffyg sylweddol, neu ni ellir mesur yn gywir gwerth teg yr ased a gafwyd neu a roddwyd. Pan fo sefydliad yn mabwysiadu polisi o brisiadau, mae gwahaniaeth allweddol mewn egwyddor rhwng IAS 16 a FRS15. Mae IAS 16 yn gofyn am ailbrisiadau sydd o werth teg. Mae'n datgan bod gwerth teg yn cael ei bennu o dystiolaeth wedi'i seilio ar y farchnad, a ddehonglir yn gyffredinol fel y gwerth ar y farchnad agored.	Posibilrwydd am ailddatgan arwyddocaol o gronfa ailbrisiu os yw colledion ailbrisiu wedi'u cymryd yn flaenorol i gronfeydd sy'n fwy nac unrhyw weddill ailbrisiu. Posibilrwydd o newid arwyddocaol mewn dibrisiad blynyddol sy'n codi o ddibrisiad cydrannol a newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol.	Posibilrwydd o newid arwyddocaol mewn dibrisiad blynyddol sy'n codi o ddibrisiad cydrannol a newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol. Dylid cywiro colledion ailbrisiu a oedd wedi'u cynnwys o'r blaen yn y gronfa ailbrisiu yn y fantolen agoriadol.	Uchel
		Mae FRS 15 yn defnyddio'r 'model gwerth i fusnes' ac mae angen ailbrisiadau i'r 'gwerth cyfredol', a ddiffinnir fel y lleiaf o'r gost adnewyddu a'r swm adferadwy. Mae IAS 16 yn mabwysiadu dull tebyg i FRS15 ar gyfer adnabod colledion ailbrisiu. Dan FRS15 mae colledion ailbrisiu sydd oherwydd defnydd clir o fuddion economaidd yn cael eu codi ar incwm a gwariant, tra dan IAS16, os oes gwarged ailbrisiu blaenorol ar yr ased hwnnw, codir y golled ailbrisiu yn erbyn y gwarged yn y lle cyntaf hyd graddau'r gwarged hwnnw, gyda balans y golled yn cael ei godi ar I&E. Mae angen gwahaniaethu'n glir rhwng colledion ailbrisiu a cholledion oherwydd amhariadau.			

		<p>Dylai tir ac adeiladau gweithredol nad ydynt yn arbenigol a thir ac adeiladau nad ydynt yn weithredol gael eu cario ar werth teg, ond mae'r Cod yn caniatáu cario'r asedau hyn ymlaen ar y gwerth defnyddio presennol. Ar gyfer asedau arbenigol lle nad oes tystiolaeth o'r farchnad, gellir seilio amcangyfrif o werth teg ar Gostau Adnewyddu wedi'u Dibrisio (DRC), y prisiad yn Ased Cyfwerth Modern (MEA) gan ddefnyddio'r dull "adeiladu parod". Os yw'n diwallu anghenion lleoliad y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, gellir prasio safle arall, sy'n wahanol i'r dull "tebyg am debyg" a ddefnyddir yn bresennol ar gyfer prisiadau DRC. Dylid cyfrif tir ac adeiladau ar wahân , a thybir bod tir â bywyd diddiwedd. Mae'r Cod yn nodi y dylid prasio asedau sy'n cael eu hadeiladu yn ôl cost hanesyddol.</p>			
		<p>Dylid prasio asedau dros ben ar werth teg a ystyrir i fod yn werth y farchnad agored. Pan nad yw'r ased yn cael ei ddal i gynhyrchu llifau arian, y gwerth a ddefnyddir yw PV y gwasanaeth posibl yr ased sydd weddill, tybir bod hwn o leiaf yn gyfartal â chost adnewyddu'r gwasanaeth posibl hwnnw ac fe'i defnyddir fel mesur gwerth teg. Os yw'r ased yn arbenigol, yna gellir defnyddio DRC fel amcangyfrif o werth teg. Dylai asedau sydd wedi'u trosglwyddo i'r Cyngor am ddim neu ystyriaeth lai na gwerth teg gael eu prasio ar werth teg, gyda chredyd yn y Gronfa Asedau Rhodd (dan SORP hwn oedd Cyfrif Gohiriedig Grantiau'r Llywodraeth).</p>			
		<p>Mae cydran o eiddo, offer a chyfarpar yn eitem sydd â chost sy'n arwyddocaol mewn perthynas â chyfanswm cost yr ased a dylid eu dibrisio'n unigol yn ystod eu bywydau defnyddiol. Ar ôl trawsnewid i'r Cod, nid oes angen defnyddio cyfrifo cydrannol ac eithrio pan adnewyddir cydran neu pan fo rhan o gydran yn cael ei gwella'n rhannol, hefyd pan ddylid peidio â chydabod yr hen gydran, ac felly nid oes angen addasu mantolenni 31 Mawrth 2009 neu 2010. Pan fo ased yn cael ei ailbriso, mae angen cofnod rhwng y Gronfa Ailbriso a'r Cyfrif Addasu Cyfalaf sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng dibrisiad wedi'i seilio ar gost hanesyddol a'r swm wedi'i ailbriso.</p>			

IAS 17 Prydlesi	SSAP 21	Mae IAS 17 yn cynnwys diffiniad ehangach o brydles gyllidol na SSAP 21. Mae'n debygol y bydd mwy o brydlesi yn cael eu trin fel prydlesi cyllidol nac o dan GAAP y DU. Bydd prydlesi eiddo yn cael eu dosbarthu a'u cyfrif fel prydlesi tir ac adeiladau ar wahân. Mae'r elfen dir yn cael ei thrin fel prydles weithredol ac eithrio'r disgwylir bydd yr hawl yn cael ei drosglwyddo i'r deiliad prydles ar ddiwedd cyfnod y brydles. Mae'r Cod yn gofyn bod y Cyngor yn rhoi cyfrif am brydlesi dan IFRS yn ei fantolen agoriadol o 1 Ebrill 2009. Mae hyn yn gallu arwain at ran o brydles yn cael ei hailddosbarthu fel un gyllidol o un weithredol ac i'r gwrthwyneb. Pan fo prydles weithredol yn cael ei hailddosbarthu fel prydles gyllidol mae angen cydnabod ased ac ymrwymiad fel bod yn gyfartal â gwerth teg yr ased. Os nad yw'r gwerth teg yn hysbys, gellir ei amcangyfrif fel gwerth presennol taliadau lleiaf y brydles. Hefyd, mae'n bosibl y bydd rhai prydlesi cyllidol yn cael eu hailddosbarthu fel prydlesi gweithredol.	Bydd rhai asedau ar y fantolen a bydd eraill oddi ar y fantolen.	Bydd y taliadau oherwydd dibrisiadau yn newid o ganlyniad i asedau yn mynd ar y fantolen ac oddi arni. Bydd yn rhaid hollti taliadau ar brydlesi cyllidol rhwng ad-dalu'r ymrwymiad a'r tâl cyllidol.	Uchel
		Bydd angen dosrannu taliadau a wnaethpwyd ar y brydles hyd 31 Mawrth 2009 rhwng y tâl cyllidol ac ad-dalu'r ymrwymiad (dan GAAP y DU roedd hyn i gyd yn cael ei godi ar y gronfa gyffredinol). Bydd angen cyfrifo dibrisiadau ar yr ased yn ogystal ag ailbrisiadau.			
IAS 18 Refeniw	FRS 5 (AN G)	Mae IAS 18 yn nodi'r amgylchiadau pan fydd meini prawf cydnabod refeniw yn cael eu diwallu. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng IFRS a GAAP y DU.	Dim Effaith.	Dim Effaith.	Isel
IAS 19 Buddion Gweithwyr	FRS 17 a rhan o FRS 12	Mae IAS 19 yn cynnwys amrywiaeth ehangach o fuddion na GAAP y DU ac mae'n gofyn am Gronni buddion tymor byr fel y byddent yn cael eu hennill. Mae buddion tymor byr yn cynnwys tâl a chyflogau, balansau wedi'u cydadfer, taliadau bonws, a buddion nad ydynt yn rhai ariannol a ystyrir y byddent yn gyfan gwbl ddyledus o fewn 12 mis yn dilyn y cyfnod pan roedd y gweithiwr yn darparu'r gwasanaeth. Dylid cydnabod gwariant cronedig pan fo ymrwymiad i dalu tâl, cyflogau a budd-daliadau nawdd cymdeithasol ar ddiwedd y flwyddyn. Dylid rhoi cyfrif am holl gostau buddion mewn cyflogaeth yn ystod y cyfnod mae'r gweithiwr yn ennill y budd. Mae'n debygol bydd y prif effaith mewn perthynas â thâl gwyliau. Bydd angen cronni buddion fel tâl gwyliau pan fo'r rhain yn faterol.	Effaith posibl ar y Gronfa Gyffredinol yn enwedig yn y flwyddyn drawsnewid. Mae'n debygol y bydd lliniariad.	Bydd y symudiadau croniadol o fewn y flwyddyn yn effeithio ar refeniw. Mae'n debygol y bydd lliniariad.	Uchel
IAS 20 Cyfrifo ar gyfer Grantiau Llywodraeth a Datguddio Cymorth gan y Llywodraeth	SSAP 4	Mae IAS 20 yn rhagnodi sut y dylid cyfrifo grantiau gan y llywodraeth a datguddio mathau eraill o gymorth gan y llywodraeth. Mae IAS 20 yn caniatáu gosod grantiau gan y llywodraeth yn erbyn asedau sefydlog, ond mae'r Cod yn bendant yn tynnu'r opsiwn yn ôl.	Dim Effaith.	Dim Effaith.	Isel

IAS 21 Effeithiau Newidiadau mewn Graddfeydd Cyfnewid Tramor	FRS 23	Mae'r Cod yn gofyn bod yr arian swyddogaethol a'r arian cyflwyno ar gyfer cyfrifon awdurdodau lleol yn bunnoedd sterling. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol dan IFRS.	Dim Effaith.	Dim Effaith.	Isel
IAS 23 Costau Benthycia	FRS 15	Mae IAS 23 yn gofyn bod endidau yn cyfalafu costau benthycia mewn perthynas ag asedau cymwys. Roedd hyn yn ddewisol dan GAAP y DU. Mae IAS 23 wedi'i dynnu'n ôl dan y Cod ar gyfer awdurdodau lleol.	Dim Effaith.	Dim Effaith.	Isel
IAS 24 Datguddiadau Partïon Perthnasol	FRS 8	Nid yw IAS 24 yn cynnwys yr holl eithriadau o fewn FRS 8 a'r SORP, ac felly bydd angen datguddiadau ychwanegol, efallai. Ar gyfer awdurdod lleol nid oes angen adroddiad cydnabyddiaethau, ac nid yw'r SORP yn cynnwys iawndal rheoli o fewn diffiniad trafodyn parti perthnasol.	Dim Effaith.	Efallai bydd agen datguddiadau partïon perthnasol ychwanegol.	Canolig
IAS 26 Cyfrifo ac Adrodd gan Gynlluniau Buddion Ymddeol	IAS 26	Ddim yn berthnasol.	Dim Effaith.	Dim Effaith.	Isel
IAS 27 Datganiadau Ariannol Cyfunol ac Ar Wahân	FRS 2	Mae IAS 27 yn diffinio is-gwmni fel "endid, gan gynnwys endid anghorfforedig fel partneriaeth sy'n cael ei rheoli gan endid arall (a elwir y riant)". Diffinnir rheolaeth fel y "pŵer i lywodraethu polisïau ariannol a gweithredol endid er mwyn cael buddion o'i weithgareddau". Mae mân wahaniaethau rhwng diffiniad yr IFRS o'r terfyn grŵp a diffiniad GAAP y DU a bydd angen i'r Awdurdod ailasesu perthnasau grŵp i bennu a yw'r rhain yn dod o fewn y terfyn.	Cyflwyno cofnodion mantolen endid ar y Fantolen.	Cyflwyno cofnodion referniw endid ar y Cyfrif Referniw.	Canolig
IAS 28 Buddsoddi mewn Cymdeithion	FRS 9	Mae IAS 28 yn diffinio cwmni cysylltiedig fel "endid, gan gynnwys endid anghorfforedig fel partneriaeth, mae gan y buddsoddwr ddylanwad arwyddocaol drosto ac nad yw'n is-gwmni nac yn fenter ar y cyd". Diffinnir dylanwad arwyddocaol fel y "pŵer i gymryd rhan ym mhenderfyniadau polisi ariannol a gweithredol y sawl a fuddsoddwyd ynddynt ond nid yw'n rheolaeth neu reolaeth ar y cyd o'r polisïau hynny". Mae'r IAS yn canolbwyntio ar y pŵer i gymryd rhan ac i weithredu mewn gwrthwyneb i GAAP y DU sy'n canolbwyntio ar y "gallu i weithredu" dylanwad arwyddocaol. Mae'r diffiniadau o gwmnïau cysylltiedig yn wahanol a gallent gynnwys amrywiaeth eang o gyrrff. Mae cyfuno endidau sydd wedi'u rheoli ar y cyd yn gallu bod ar sail wahanol. Bydd angen am ailasesu terfyn grŵp yr Awdurdod, a lle bo hynny'n angenrheidiol cyfuno cyrrff ychwanegol i gyfrifon grŵp.	Cyflwyno cofnodion mantolen Cwmni Cysylltiol ar y Fantolen. Gallai'r newid olygu gwahaniaethau mewn dehongli endidau sy'n dod i mewn i'r grŵp.	Cyflwyno cofnodion referniw Cwmni Cysylltiol ar y Cyfrif Referniw. Gallai'r newid olygu gwahaniaethau mewn dehongli endidau sy'n dod i mewn i'r grŵp.	Canolig

IAS 29 Adrodd Ariannol mewn Economiâu â Gorchwyddiant	FRS 24	Bydd Trysorlys EM yn rhoi gwybod am gategoreiddio'r economi fel un â gorchwyddiant os yw hynny'n briodol.	Dim Effaith.	Dim Effaith.	Isel
IAS 31 Diddordebau mewn Mentrau ar y Cyd	FRS9	Mae'r diffiniad o fenter ar y cyd yn ehangach nag o dan GAAP y DU, ac mae'n cynnwys JANEs sydd wedi'u nodi gan y mathau canlynol o fentrau ar y cyd: endidau wedi'u rheoli ar y cyd, gweithredoedd wedi'u rheoli ar y cyd ac asedau wedi'u rheoli ar y cyd. Mae IAS 31 yn diffinio menter ar y cyd fel "cytundeb contract trwy'r hwn mae dau neu ragor o bartion yn cynnal gweithgaredd economaidd sy'n destun rheolaeth ar y cyd". Mae'r diffiniadau o fentrau ar y cyd yn wahanol a gallent gynnwys amrywiaeth eang o gyrff. Mae cyfuno endidau sydd wedi'u rheoli ar y cyd yn gallu bod ar sail wahanol. Bydd angen am ailasesu terfyn grŵp yr Awdurdod, a lle bo hynny'n angenrheidiol cyfuno cyrff ychwanegol i gyfrifon grŵp.	Cyflwyno cofnodion mantolen Menter ar y Cyd ar y Fantolen.	Cyflwyno cofnodion referiw Mentrau ar y Cyd ar y Cyfrif Referiw.	Canolig
IAS 32 Offerynnau Ariannol: Cyflwyniad	FRS25	Mae'r Awdurdod eisoes wedi cydymffurfio ag IAS 32 dan GAAP y DU yn 2007-2008.	Dim Effaith.	Dim Effaith.	Isel
IAS 33 Enillion Fesul Cyfran	FRS22	Nid yw'n berthnasol i awdurdodau lleol.	Dim Effaith.	Dim Effaith.	Isel
IAS 34 Adrodd Ariannol Interim	DIM	Nid yw'n berthnasol i awdurdodau lleol.	Dim Effaith.	Dim Effaith.	Isel
IAS 36 Amharu ar Asedau	FRS 11	Mae IAS 36 yn sicrhau nad yw gwerth cario asedau yn fwy na'u swm adferadwy ac mae'n mesur amhariadau trwy gymharu'r gwerth i'w gario gyda'r uchaf o werth teg namyn costau gwerthu (cyfartal â'r pris gwerthu net) a'r gwerth mewn defnydd. Mae'r Cod yn gofyn am asesu amhariadau'n flynyddol. Mae'r Cod yn gofyn bod dangosyddion yn gwyrddroi amhariadau yn yr un modd ar gyfer asedau diriaethol ac asedau anghyffwrddadwy, ond dan GAAP y DU, nodwyd dangosyddion ar wahân. Mae IAS 36 angen datguddio ehangach, gan gynnwys adroddiant ar y broses brofi a'r profion a gynhaliwyd. Dan GAAP y DU, cydnabyddir colledion amhariad oherwydd y treuliant eglur o fuddion economaidd ar ased wedi'i ailbricio yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Dan IFRS, cydnabyddir pob colled amhariad ar asedau wedi'u hailbricio yn y Gronfa Ailbricio hyd at y swm yn y Gronfa Ailbricio ar gyfer pob ased unigol. Pan roedd amhariad yn ystyried angen i edrych ar lifoedd arian, nid elw mewn canolfannau hamdden, unedau diwydiannol a'r theatrau.	Dim effaith oherwydd mabwysiadwyd egwyddor yr IAS eisoes yn 2008-2009, ond efallai bydd ffigyrau amhariadau'n uwch.	Dim effaith oherwydd mabwysiadwyd egwyddor yr IAS eisoes yn 2008-2009, ond efallai bydd ffigyrau amhariadau'n uwch. Dim effeithiau cyllidebol oherwydd bod colledion yn cael eu gwyrddroi o'r Gronfa Gyffredinol.	Canolig

IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol	FRS 12 a IAS 19	Mae angen cofnodi darpariaethau ar eu gwerth presennol gan ddefnyddio'r raddfa Briodol o ostyngiad. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol dan IFRS a GAAP y DU.	Bydd y ffigwr Darpariaethau ar y Fantolen ychydig yn llai oherwydd effeithiau gostyngiadau.	Dim Effaith.	Isel
IAS 38 Asedau Anghyffwrddadwy	SSAP 13 a FRS 10	Dan GAAP y DU, nid yw asedau anghyffwrddadwy wedi'u cynhyrchu'n fewnol yn cael eu cyfalafu ac eithrio pan fo marchnad weithredol ar gyfer yr ased. Dan IFRS, mae asedau anghyffwrddadwy wedi'u cynhyrchu'n fewnol yn cael eu cyfalafu pan fo'r meini prawf cydnabod yn cael eu diwallu. Mae'r meini prawf fel a ganlyn: rhaid bod gwahanu'r ased o'r endid yn bosibl, rhaid i'r endid reoli'r ased, rhaid bod budd economaidd yn y dyfodol o'r ased, rhaid bod tebygolrwydd bydd y buddion economaidd yn llifo i'r endid, a gellir mesur cost yr ased mewn modd dibynadwy. Dan IFRS, bydd yr ased anghyffwrddadwy yn cael ei fesur ar gost yn y lle cyntaf. Dylid codi pob ailbrisiad yn y lle cyntaf ar y gronfa ailbrisiad. Dan IFRS nid oes uchafswm bywyd defnyddiol ond dan GAAP y DU, roedd FRS 10 yn awgrymu bod bywyd defnyddiol asedau anghyffwrddadwy yn 20 mlynedd neu lai.	Bydd y nifer o asedau anghyffwrddadwy wedi'u cynhyrchu'n fewnol sydd wedi'u cofnodi ar y Fantolen yn newid.	Bydd costau dibrisio yn newid.	Canolig
IAS 39 Cyfryngau Ariannol: Nodi a Mesur	FRS 4, 5, 12	Mae IAS 39 bron â bod yr un peth â'r SORP (FRS 26) a weithredodd y Cyngor yn 2007-2008.	Dim Effaith.	Dim Effaith.	Isel
IAS 40 Eiddo Buddsoddi	SSAP 19	Bydd Eiddo Buddsoddi yn cael ei gario ar werth teg yn hytrach na'r isaf rhwng y gost amnewid gyfredol net a gwerth net y gellir ei gyflawni (gwerth y farchnad agored fel arfer), felly nid yw'n debygol y bydd newid mewn pris. Bydd ailbrisiadau yn cael eu symud i wargedion neu ddiffygion wrth ddarparu gwasanaethau yn hytrach na'r Gronfa Ailbrisiad, ac ni fydd eiddo buddsoddi yn cael eu dibrisio. Dan IAS 40 gellir cyfrif am ddiddordeb eiddo wedi'i ddal gan ddeiliad prydles dan brydles weithredol fel eiddo buddsoddi os fyddai fel arall yn cwrdd â'r diffiniad o eiddo buddsoddi. Mae'r brydles yn cael ei chyfrif fel prydles ariannol a phennir gwerth teg. Nid yw'r dewis hwn ar gael dan GAAP y DU.	Bydd Eiddo Buddsoddi yn cael eu cofnodi ar Werth Teg.	Bydd ailbrisiadau yn cael eu symud i wargedion neu ddiffygion wrth ddarparu gwasanaethau.	Canolig
IAS 41 Amaeth	Dim	Defnydd cyfyngedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol.	Dim Effaith.	Dim Effaith.	Isel



IFRS 1 Mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol am y Tro Cyntaf	FRS 28	Mae angen gwneud y canlynol yn y datganiad IFRS agoriadol o sefyllfa ariannol fel man cychwyn ar gyfer cyfrifo dan yr IFRS: nodi'r holl asedau a rhwymedigaethau gofynnol, dad-nodi'r asedau a rhwymedigaethau priodol, ailddosbarthu eitemau a oedd wedi'u nodi dan GAAP y DU fel un math o ased, rhwymedigaeth neu gydran o ecwiti ond sy'n fathau gwahanol o dan IFRS, a defnyddio'r Cod i fesur pob ased a rhwymedigaeth. Mae'r Cod yn darparu eithriadau cyfyngedig rhag hyn, ac mae'n rhagnodi bod newidiadau yn cael eu gweithredu'n ôl-weithredol ac eithrio bod un o'r eithriadau canlynol yn gymwys: IFRIC 4 (pennu os yw trefniant yn cynnwys prydles), IFRIC 1 (newidiadau mewn digomisiynu, adfer a rhwymedigaethau tebyg), ac IAS 23 (costau benthyca).	Cydnabod rhai asedau newydd, dad-nodi rhai asedau presennol ac ailddosbarthu rhai eitemau.	Bydd costau dibrisiadau yn wahanol o ganlyniad i nodi a dad-nodi asedau.	Uchel
IFRS 2 Taliadau wedi'u seilio ar Gyfranddaliadau	FRS 20	Nid yw IFRS 2 yn berthnasol i ddatganiadau ariannol endid unigol awdurdodau lleol.	Dim Effaith.	Dim Effaith.	Isel
IFRS 3 Cyfuniadau Busnes	FRS 6, 7, 10	Mae IFRS 3 yn gofyn cyfrifo am gyfuniadau busnes gan ddefnyddio'r dull caffael, sy'n wahanol i GAAP y DU a oedd yn caniatáu cyfrifo cydsoddi. Nid yw'r safon yn debyg o fod yn berthnasol.	Dim Effaith.	Dim Effaith.	Isel
IFRS 4 Contractau Yswiriant	Dim	Defnydd cyfyngedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol.	Dim Effaith.	Dim Effaith.	Isel
IFRS 5 Asedau nad ydynt yn gyfredol Wedi'u Dal i'w Gwerthu a Gweithrediadau wedi'u Terfynu.	FRS 3	Dan GAAP y DU, mae asedau wedi'u nodi fel gwared yn cael eu mesur ar werth y farchnad, wedi'u heithrio o unrhyw dibrisio ac ar ôl eu hailddosbarthu fel ased gweddill nid yw swm unrhyw enillion ailbriso wedyn wedi'i gyfyngu. Dan IFRS, mae asedau sydd wedi'u nodi fel rhai sydd wedi'u dal i'w gwerthu yn cael eu mesur ar yr isaf o'r gwerth i'w gario a gwerth teg (gwerth y farchnad), ac nid ydynt yn destun dibrisio. Yn dilyn ailddosbarthu fel rhai sydd wedi'u dal i'w gwerthu, ni ddylai swm unrhyw ailbriso wedyn fod yn fwy na cholledion oherwydd amhariadau blaenorol. Efallai mai canlyniad hyn fydd elw mwy o gael gwared â'r ased. Er mwyn nodi fel wedi'i ddal ar gyfer gwerthu, rhaid i ased fod yn anweithredol ac ar gael i'w werthu yn syth yn ei gyflwr presennol, rhaid i'r gwerthiant fod yn debygol iawn, rhaid ei farchnata i'w werthu am bris rhesymol, a rhaid disgwyl ei werthu o fewn blwyddyn. Nid yw asedau sydd wedi'u dal i'w gwerthu yn cynnwys asedau segur neu asedau sgrap. Er mwyn nodi gweithred fel un sydd wedi terfynu, rhaid i weithgareddau atal yn gyfan gwbl a dylid dangos y canlyniadau ar wahân yn y Datganiad Incwm a'r Fantolen.	Efallai bydd angen ailbriso rhai asedau yn y Fantolen a'u symud i Asedau Cyfredol.	Efallai bydd mwy o enillion o gael gwared ag asedau yn cael eu nodi.	Canolig

IFRS 6 Archwilio Asedau Mwynol a'u Gwerthuso	Dim	Nid yw hyn yn debygol o fod yn berthnasol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
IFRS 7 Cyfryngau Ariannol: Datguddiadau	FRS 29	Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng IFRS 7 a GAAP y DU.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
IFRS 8 Segmentau Gweithredol	SSAP 25	Dan IFRS mae segmentau gweithredol wedi'u diffinio ar yr un sail ag adrodd mewnol i "brif wneuthurwr penderfyniadau gweithredol" yr endid i ddibenion dyrannu adnoddau ac asesu perfformiad. Mae IFRS 8 yn disodli IAS 14 ar gyfer cyfnodau cyfrifo sy'n dechrau cyn neu ar ôl mis Ionawr 2009. Hefyd dan IFRS 8 defnyddir yr un dull wrth ddatguddio gwybodaeth, ac felly'r symiau a adroddir yn y datganiadau ariannol yw'r rhai a ddefnyddir gan y rheolwyr, gydag eglurhad o'r sail a chysoniad gyda'r symiau perthnasol yn y datganiadau ariannol.	Dim Effaith	Dim effaith ar referniw, ond bydd cynnydd yng nghynnwys y datganiad ariannol gyda dadansoddiad o referniw segmentol a chysoniadau cysylltiol.	Canolig
IFRIC 1 Newidiadau mewn Digomisiynu ac Adfer Presennol, a Rhwymedigaethau Tebyg	Wedi'i gynnwys yn FRS 12	Mae angen cofnodi darpariaethau ar eu gwerth presennol gan ddefnyddio'r raddfa briodol o ostyngiad. Bydd angen i gostau digomisiynu fod yn rhan o'r costau Blwyddyn 1. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol dan IFRS a GAAP y DU.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
IFRIC 2 Cyfranddaliadau'r Aelodau mewn Endidau Cydweithredol a Chyfryngau Tebyg	UITF 39	Defnydd cyfyngedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
IFRIC 4 Penderfynu Os yw Trefniant yn Cynnwys Prydles	Wedi'i gynnwys yn IFRS 5. UITF 28	Bydd angen asesu os yw trefniant yn cynnwys sylwedd prydles. Bydd angen asesu os yw cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio ased(au) penodol ac os yw'r trefniant yn trosglwyddo'r hawl i ddefnyddio'r ased. Pan fo hynny'r achos, bydd yn rhaid cydnabod prydles a chyfrifo amdani yn unol â darpariaethau'r brydles.	Bydd asedau newydd yn cael eu cyflwyno i'r Fantolen.	Bydd yr asedau newydd a gyflwynir yn cael eu dibrisio.	Uchel
IFRIC 5 Hawliau i Fuddion sy'n Codi o Gronfeydd Digomisiynu, Adfer ac Adsefydlu Amgylcheddol	Dim	Defnydd cyfyngedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel

IFRIC 6 Rhwymedigaethau sy'n Codi o Gymryd Rhan mewn Marchnad Benodol – Gwastraff Trydanol ac Offer Electronig	UITF 45	Defnydd cyfyngedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
IFRIC 7 Defnyddio'r Dull Ailddatgan dan Adrodd Ariannol IAS 29 mewn Economiâu â Gorchwyddiant	Dim	Bydd Trysorlys EM yn rhoi gwybod os yw'r economi yn cael ei chyfrif fel un sydd â gorchwyddiant os yw hynny'n briodol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
IFRIC 8 Sgôp IFRS 2	UITF 41	Nid yw IFRIC 8 yn berthnasol i ddatganiadau ariannol endid sengl awdurdodau lleol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
IFRIC 9 Ailasesu Deilliadau Mewnol	UITF 42	Mae'r Cyngor eisoes wedi cydymffurfio dan GAAP y DU yn 2007-2008.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
IFRIC 10 Adrodd Ariannol Interim ac Amhariadau	Dim	Defnydd cyfyngedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
IFRIC 11 IFRS 2 Deliadau Cyfranddaliadol Grŵp a Thrysorlys	UITF 44	Nid yw IFRIC 11 yn berthnasol i ddatganiadau ariannol endid sengl awdurdodau lleol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
IFRIC 12 Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth	FRS 5 (AN F)	Mae IFRIC 12 yn datgan bod yn rhaid i grantwyr gydnabod isadeiledd a ddarperir dan drefniadau consesiwn gwasanaeth o fewn sgôp y safon, fel eiddo, offer a chyfarpar. Golyga hyn bod asedau isadeiledd presennol dan gontractau PFI ac sydd wedi'u cyfrifo o'r blaen fel "oddi ar y fantolen" yn debygol o fod "ar y fantolen" dan IFRS.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
IFRIC 13 Rhaglenni Ffyddlondeb Cwsmeriaid	FRS 5 (AN G)	Defnydd cyfyngedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
IFRIC 14 IAS 19 – Y Cyfyngiad ar Ased o Fudd wedi'i Ddiffinio, Gofyniadau Cyllido Lleiaf a sut maent yn Rhyngweithio.	Dim	Gweler IAS 19.	Gweler IAS 19.	Gweler IAS 19.	Uchel

IFRIC 15 Cytundebau ar gyfer Adeiladu Eiddo Diriaethol	Dim	Defnydd cyfyngedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
IFRIC 16 Gwarchod Buddsoddiad Net mewn Gweithrediad Tramor	Dim	Ddim yn berthnasol i awdurdodau lleol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
IFRIC 17 Dosbarthu Asedau Nad ydynt yn Arian Parod i Berchnogion	Dim	Ddim yn berthnasol i awdurdodau lleol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
IFRIC 18 Trosglwyddo Asedau gan Gwsmeriaid	Dim	Ddim yn berthnasol i awdurdodau lleol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
SIC 7 Cyflwyno'r Ewro	UITF 21	Mae'r Cod yn gofyn bod yr arian swyddogaethol a chyflwyniadol ar gyfer cyfrifon awdurdodau lleol yn bunnoedd sterling.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
SIC 10 Cymorth gan y Llywodraeth – Dim Perthynas Benodol â Gweithgareddau Gweithredol	Dim	Defnydd cyfyngedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
SIC 12 Cydgrynhoi – Endidau at Ddibenion Arbennig	Wedi'i gynnwys yn FRS 5	Defnydd cyfyngedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
SIC 13 Endidau wedi'u Rheoli ar y Cyd – Cyfraniadau nad ydynt yn rhai Ariannol gan Fentrwyr.	UITF 31	Gweler IAS 31.	Gweler IAS 31	Gweler IAS 31	Canolig
SIC 15 Prydlesi Gweithredol - Cymhelliannau	UITF 28	Defnydd cyfyngedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol, efallai bydd seibiannau prydles yn berthnasol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
SIC 21 Trethi Incwm – Adennill Asedau nad ydynt yn Dibrisio wedi'u Hailbrisio	Wedi'i gynnwys yn FRS 19	Defnydd cyfyngedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel

SIC 25 Trethi Incwm – Newidiadau yn Statws Trethi Menter neu ei Chyfranddalwyr	Wedi'i gynnwys yn FRS 16 a FRS 19	Defnydd cyfyngedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
SIC 27 Gwerthuso Sylwedd Deliadau o fewn Ffur Gyfreithiol Prydles	Wedi'i gynnwys yn FRS 5	Gweler IFRIC 4	Gweler IFRIC 4	Gweler IFRIC 4	Uchel
SIC 29 Datguddio – Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth	Wedi'i gynnwys yn FRS 5 (AN F)	Gweler IFRIC 12	Gweler IFRIC 12	Gweler IFRIC 12	Isel
SIC 31 Refeniw – Deliadau Cyfnewid sy'n Cynnwys Gwasanaethau Hysbysebu	UITF 26	Defnydd cyfyngedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol.	Dim Effaith	Dim Effaith	Isel
SIC 32 Asedau Anghyffwrddadwy – Costau Gwefannau	UITF 29	Gweler IAS 38	Gweler IAS 38	Gweler IAS 38	Canolig